**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 10 Medi 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd  oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Ted Latham | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |
| R C Stewart | Cyngor Abertawe |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Maria Battle | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Ray Selby | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Emma Woollett | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid Dinas-ranbarth Abertawe (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Jonathan Burnes | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |
| Jason Garcia | Archwilio Cymru |
| Jon Haswell | Swyddog Adran 151 (Cyngor Sir Benfro) |
| Greg Jones | Swyddog Cyfathrebu a Marchnata - y Fargen Ddinesig (Cyngor Sir Gâr) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Nicola Pearce | Cyfarwyddwr Amgylchedd (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr) Rob Jones (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)
Medwin Hughes (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant), Edward Tomp (Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd) a/ac Steve Wilks (Prif Ysgol Abertawe)
Steve Phillips (Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)) a/ac Ian Westley (Prif Weithredwr (Cyngor Sir Benfro))

**81 Ethol Cadeirydd Cyd-bwyllgor Dinas Ranbarth Bae Abertawe.**

Gofynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd am enwebiadau ar gyfer y Cadeirydd. Derbyniwyd enwebiad ar gyfer y Cynghorydd R C Stewart. Cynigiwyd ac eiliwyd yr enwebiad.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020-2021.

**Sylwer:** Mae'r Cytundeb ar y Cyd yn nodi bod yr Arweinwyr sy'n weddill o'r tri chyngor yn gweithredu fel Is-gadeiryddion ar y cyd.

**Councillor R C Stewart (Chair) Presiding**

**82 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**83 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.

**84 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**85 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**86 Adroddiad Archwilio Cymru ar Ddatganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe (2019/2020).**

Cyflwynodd Jason Garcia, Swyddfa Archwilio Cymru, Adroddiad Archwilio Cyfrifon 2019-2020, Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe". Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r Datganiad o Gyfrifon yn dangos darlun gwir a theg o sefyllfa Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe ar 31 Mawrth 2020.

Ymatebodd Jason Garcia (SAC) i gwestiynau o natur dechnegol, ac ymatebodd Chris Moore (Swyddog Adran 151 Dinas-ranbarth Bae Abertawe) i gwestiynau am sefyllfa Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Derbyn archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiad Datganiad o Gyfrifon 2019-2020 ar gyfer Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**87 Datganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe (2019/2020).**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Chris Moore), adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Datganiad o Gyfrifon Blynyddol Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe, 2019-2020.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2019-2020 ar ôl ei archwilio yn er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd yn 2018.

**88 Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Chris Moore), adroddiad a oedd yn gofyn am gydnabyddiaeth ffurfiol o sylwadau Swyddog Adran 151 Dinas-ranbarth Bae Abertawe i Swyddog Archwilio Cymru.

**Penderfynwyd** cydnabod llythyr sylwadau Swyddog Adran 151 Dinas-ranbarth Bae Abertawe a Chadeirydd y Cyd-bwyllgor i Swyddfa Archwilio Cymru.

**89 Adroddiad Monitro Ariannol 2020/21 - Sefyllfa Alldro Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Chris Moore) adroddiad a oedd yn rhoi gwybod am sefyllfa alldro ragweledig diwedd y flwyddyn mewn perthynas â swyddogaethau gweinyddol Swyddfa Rheoli'r Rhaglen, y Corff Atebol, y Cyd-bwyllgor a'r Cyd-bwyllgor Craffu.

**Penderfynwyd** adolygu cyfrifon blynyddol Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**90 Adolygiad Allanol ar Raglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe adroddiad a oedd yn rhoi gwybod am ganlyniad ac argymhellion Adolygiad Cymheiriaid Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r adroddiad cymheiriaid allanol a rhoi caniatâd i Swyddfa Rheoli Portffolio Dinas-ranbarth Bae Abertawe roi cynllun gweithredu ar waith sy'n seiliedig ar y chwe argymhelliad.

**91 Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd.**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe adroddiad a oedd yn rhoi gwybod am newid dros dro i'r Cadeirydd a phenodi Is-gadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd (BSE).

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo penodi Chris Foxall yn Gadeirydd y BSE am gyfnod o hyd at 6 mis.

2) Cymeradwyo penodi Amanda Davies yn Is-Gadeirydd y BSE am gyfnod o hyd at 6 mis.

3) Adolygu'r ddau benodiad ar ôl 6 mis neu pan fydd yn angenrheidiol gwneud hynny.

**92 Diweddariad ar brosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe ddiweddariad ar y prosiectau sy'n rhan o Raglen y Fargen Ddinesig. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys:

- Isadeiledd digidol;
- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer;
- Prosiect Campws Gwyddor Bywyd a Lles;
- Datblygiad Gwyddor Bywyd a Lles sydd yn yr arfaeth ar gyfer Llanelli;
- Prosiect Morol Doc Penfro;
- Sgiliau a doniau;
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel;
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau;
- Yr Egin.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariadau a'r cynnydd.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.27 am

**Cadeirydd**